HYDREF 2024

# MEDDYGFA THE LAURELS

# CYLCHLYTHYR



## Taflu goleuni ar eich practis

Dyma ychydig o ddiweddariadau pwysig a nodiadau atgoffa o ran iechyd ar gyfer tymor yr Hydref.

· Bellach mae gennym bedwar Meddyg Teulu ac un Uwch Ymarferydd Nyrsio parhaol yn darparu rhwng 280 a 300 o apwyntiadau bob wythnos. Mae meddygon locwm rheolaidd yn parhau i gefnogi'r practis gan gynnig apwyntiadau pellach ac ychwanegol.

· Gellir trefnu hyd at 50% o apwyntiadau i weld Meddygon Teulu ac Uwch Ymarferwyr Nyrsio ar gyfer materion nad ydynt yn rhai brys hyd at chwe wythnos ymlaen llaw.

· Rydym yn cadw sawl apwyntiad bob dydd yn ystod yr wythnos i blant yn unig. Os yw eich plentyn yn sâl, cofiwch ffonio’r practis yn gynnar.

· Oeddech chi’n gwybod fod modd i chi anfon neges atom trwy ddefnyddio’r ddolen ACCURX ar brif dudalen ein gwefan? Ein nod yw ateb eich neges o fewn dau ddiwrnod gwaith.

· Methwyd 189 awr (757) o apwyntiadau clinigol gan gleifion rhwng mis Ebrill a mis Medi. Mae hyn yn cyfateb i 31.5 diwrnod o apwyntiadau meddyg teulu sydd wedi mynd yn ofer. Felly, os nad yw eich cais am apwyntiad yn un brys, peidiwch â ffonio yn y bore. Ystyriwch anfon neges at y practis trwy ACCURX ar wefan y practis:
www.thelaurelssurgery.co.uk

# YMUNO Â'N GRŴP CYFRANOGIAD CLEIFION (PPG)

Ym mis Ionawr eleni, fe wnaethom wahodd cleifion i fynegi diddordeb yn ymwneud â chymryd rhan mewn Grŵp Cyfranogiad Cleifion.



Derbyniodd y practis 29 datganiad o ddiddordeb, a chynhaliwyd sesiwn ymgysylltu ar 16 Medi. Roedd cleifion, Rhagnodwyr Cymdeithasol a LLAIS, sefydliad annibynnol sy'n helpu pobl yng Nghymru i ddweud eu dweud yn eu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn bresennol.


Bydd digwyddiad y 'Grŵp Cyfranogiad Cleifion' nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr 2025. Y bwriad yw ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd i gynnal y grŵp.

Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am gynnydd y Grŵp Cyfranogiad Cleifion (PPG) newydd.

# Perfformiad y Feddygfa

Isod fe welwch olwg gyffredinol o'n dangosfwrdd sy'n dangos yr apwyntiadau, rhifau ffôn, a data gweinyddol eraill sy'n cael ei ddiweddaru'n fisol.

Os oes gennych apwyntiad wedi'i drefnu ond na allwch fod yn bresennol, rhowch wybod i ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn gynnig yr apwyntiad hwn i glaf arall. Mae'r data hwn o fis Ebrill i fis Medi 2024.



# AMDDIFFYNNWCH EICH HUN Y GAEAF HWN

**Ffliw –** Cynhelir brechiadau ffliw ym mhractis y Meddyg Teulu ar gyfer y rheiny sy'n gymwys. Anfonir neges destun neu caiff cleifion alwad ffôn i drefnu eu hapwyntiad.

**Pigiad atgyfnerthu Covid-19 yr Hydref –** Bydd y Canolfannau Brechu yn Sir y Fflint a Wrecsam yn anfon llythyrau yn gwahodd y rheiny sy'n gymwys i fynychu apwyntiad. Caiff pob claf fanylion am ble y cynhelir eu brechiad.

**Feirws Syncytiol Resbiradol (RSV) –** achos cyffredin o beswch ac annwyd. Dydyn nhw ddim fel arfer yn ddifrifol, ond mae gan rai babanod ac oedolion risg uwch o fynd yn ddifrifol wael. Eleni bydd y Canolfannau Brechu yn gwahodd cleifion cymwys ar gyfer brechiad RSV.




**Mae mwy o wybodaeth a'r meini prawf cymhwyster ar gael yma ar wefan BIPBC.**

# SEXtember 2024

Cymerwch reolaeth dros eich iechyd rhywiol gan ddilyn SEXtember – casglwch becyn profi a phostio am ddim o fannau casglu ar draws Gogledd Cymru, neu archebwch ar-lein.

I'w wneud mor rhwydd â phosibl, rydym yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau bod profion ar gael i'w casglu am ddim o amrywiol leoliadau ar draws Gogledd Cymru.

Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw cerdded i mewn a gofyn am becyn profi a phostio. Mae'n gwbl gyfrinachol. Ni ofynnir i chi am eich manylion, a daw'r prawf mewn pecyn plaen.

Darganfyddwch fwy am ein clinigau yn eich ardal chi.

Gall eich clinig iechyd rhywiol lleol ddarparu cymorth a chyngor manwl i gefnogi eich iechyd rhywiol a'ch lles.

